



Sut ydw i'n gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy?

- 1** Mae'n rhaid i chi ofyn i rywun sy'n fodlon ac yn gallu bod yn ddirprwy i chi a phleidleisio ar eich rhan. Nodwch y gall person fod yn ddirprwy i berthnasau agos a hyd at ddau berson arall yn unig yn yr un etholiad neu refferendwm.*
- 2** Llenwch y ffurflen gais pleidlais drwy ddirprwy. Mae'n rhaid i chi roi rheswm pam fod angen i chi bleidleisio drwy ddirprwy ac efallai bydd angen i berson cymwys lofnodi eich cais. Gweler y nodiadau isod am wybodaeth ar bwy all gefnogi eich cais.
- 3** Gwnewch yn siŵr eich bod **chi'n** cwblhau pob adran o'r ffurflen ac yn rhoi eich dyddiad geni a'ch llofnod.
- 4** Dychwelwch eich ffurflen wedi'i chwblhau i'r Swyddfa Cofrestru Etholiadol Lleol cyn gynted â phosibl. Gallwch ddod o hyd i'w manylion cyswllt ar www.fymhleidlaisi.co.uk

Dim ond etholwyr sydd (neu a fydd) wedi'u cofrestru'n unigol ar gyfer etholiad neu refferendwm penodol fydd â hawl i wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy yn yr etholiad neu'r refferendwm hwnnw. Hefyd, dim ond os yw'r person yr ydych am benodi fel dirprwy (neu yn mynd i fod) wedi cofrestru yn unigol, y gallwch eu penodi fel dirprwy. Cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol i gael mwy o wybodaeth.

Peidiwch â dychwelyd eich ffurflen i'r Comisiwn Etholiadol. **Noder:** Mae'n rhaid i'ch ffurflen gais gyrraedd y swyddfa gofrestru etholiadol erbyn **5pm 11 diwrnod gwaith** cyn etholiad neu refferendwm os ydych yn newid neu'n canslo pleidlais drwy ddirprwy, post neu ddirprwy drwy'r post, ac erbyn **5pm 6 diwrnod gwaith** cyn etholiad neu refferendwm os ydych yn gwneud cais am bleidlais newydd drwy ddirprwy.

* Gan refferendwm rydym yn golygu: Refferenda Cynllunio Cymdogaethau, Refferenda Treth Gyngor, Refferenda Maerol a Threfniadau Llywodraethol, pleidleisiau Cyngorol Awdurdodau Lleol. Os hoffech bleidleisio drwy'r post ar gyfer math arall o refferendwm, cysylltwch â'ch Swyddog Cofrestru Etholiadol.



Pleidleisio drwy ddirprwy

Os na allwch bleidleisio mewn etholiad neu refferendwm yn bersonol o ganlyniad i anabledd, gallwch wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy (rhywun arall yn pleidleisio ar eich rhan).

Ni ddylid defnyddio'r ffurflen hon os ydych wedi'ch cadw mewn ysbyty o dan Adran 145 Deddf Iechyd Meddwl 1983 yng Nghymru a Lloegr neu Adran 329 Deddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) (yr Alban) 2003 yn yr Alban.

Oes angen cefnogi fy nghais?

Os ydych wedi'ch cofrestru'n ddall gan awdurdod lleol a bod eich cais yn seiliedig ar eich dallineb, neu eich bod yn derbyn taliad budd-dal (a restrir isod) oherwydd anabledd a nodir yn y cais, yna nid oes angen cefnogi eich cais. Mae'n rhaid i chi gwblhau Rhan 4B neu 4C y cais.

Taliadau budd-dal:

- Cyfradd Uwch Eifen Symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl
- Cyfradd Uwch Eifen Symudedd y Taliad Annibyniaeth Bersonol
- Taliad annibyniaeth y Lluoedd Arfog

Pwy all gefnogi fy nghais?

Os ydynt yn darparu gofal neu'n eich trin chi ar gyfer yr anabledd:

- meddyg cofrestredig, gan gynnwys deintydd, optegydd, fferylllydd, osteopath, ceiropractydd a seicolegydd
- nyrs cofrestredig
- gweithiwr iechyd proffesiynol

Os ydynt yn gofalu amdanoch, yn eich trin, neu wedi trefnu gofal neu gymorth o ran anabledd:

- gweithiwr cymdeithasol cofrestredig

Neu:

- rheolwr iechyd meddwl cofrestredig neu eu cynrychiolydd
- os ydych yn byw mewn cartref gofal preswyl, y person sydd wedi'u cofrestru sy'n rhedeg y cartref

- os ydych yn byw ar eiddo a ddarperir ar gyfer pensiynwyr neu bobl anabl, warden yr eiddo hynny

Beth sy'n digwydd wedi i mi ddychwelyd y ffurflen hon?

- Mae'n rhaid i'ch dirprwy fynd i'ch **gorsaf bleidleisio chi** i bleidleisio ar eich rhan. Os na all eich dirprwy fynd i'r orsaf bleidleisio, gallant wneud cais i bleidleisio drwy'r post. Gallant wneud hyn hyd at 5pm 11 diwrnod gwaith cyn y bleidlais.
- Dylech ddweud wrth eich dirprwy sut yr hoffech iddynt bleidleisio ar eich rhan, er enghraifft, pa ymgeisydd neu pa blaid neu pa ganlyniad.
- Bydd eich dirprwy yn cael cerdyn pleidleisio drwy ddirprwy, yn dweud wrthynt ble a phryd i bleidleisio ar eich rhan.
- Bydd angen i chi roi dyddiad geni a llofnod ar y ffurflen gais hon. Mae angen y wybodaeth hon i rwystro twyll. Os nad ydych yn gallu llofnodi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch Swyddog Cofrestru Etholiadol

Pleidleisio fel dirprwy

Gall person fod yn ddirprwy i berthnasau agos a hyd at ddau berson arall yn unig mewn etholiad neu refferendwm.

Perthnasau agos yw priod, partner sifil, rhiant, mam-gu, tad-cu, brawd, chwaer, plentyn, ŵyr neu wyres yr ymgeisydd.

Dim ond os yw'r person yr ydych am benodi fel eich dirprwy dros 18 a'u bod (neu y byddant) wedi cofrestru'n unigol, y gallant fod yn ddirprwy i chi ar gyfer yr etholiad neu'r refferendwm hynny.



Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch pleidleisio trwy ddirprwy ewch i **www.fymhleidlaisi.co.uk** neu cysylltwch â'ch swyddfa gofrestru etholiadol.

Yng Nghymru a Lloegr, bydd eich swyddfa gofrestru etholiadol yn eich cyngor lleol. Yn yr Alban, gall fod yn swyddfa ar wahân. I ddod o hyd i fanylion cyswllt, ewch i **www.fymhleidlaisi.co.uk**

Nid yw'r ffurflen hon yn berthnasol i Ogledd Iwerddon. Ewch i **www.eoni.org.uk** am ragor o wybodaeth.

Dim ond at ddibenion etholiadol fydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn defnyddio'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu. Byddant yn gofalu am wybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn dilyn Deddf Diogelu Data 1998. Ni fydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn rhoi gwybodaeth bersonol amdanoch chi i unrhyw un arall na sefydliad arall, heblaw bod yn rhaid iddynt yn ôl y gyfraith.

Cais i bleidleisio drwy ddirprwy oherwydd anabledd



Dim ond un person all wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy gan ddefnyddio'r ffurflen hon. Ysgrifennwch mewn inc du a defnyddiwch **BRIFLYTHRENNAU**. Wedi i chi lenwi pob adran a llofnodi'r ffurflen eich hun, anfonwch ef at eich swyddfa cofrestru etholiadol. Mae'r cyfeiriad ar gael yn **www.fymhleidlaisi.co.uk**

1 Amdanoch chi

Cyfenw

Enwau cyntaf (yn llawn)

Eich cyfeiriad presennol yn llawn

Cod post neu BFPO

Eich cyfeiriad gohebu (os yn wahanol)

Rhif ffôn yn ystod y dydd neu rif ffôn symudol (dewisol)

Cyfeiriad e-bost (dewisol)

2 Ynghylch eich dirprwy

Enw llawn

Perthynas i chi (os o gwbl)

Cyfeiriad llawn

Cod post

3 Am faint ydych chi am gael y bleidlais drwy ddirprwy?

Rwy am bleidleisio drwy ddirprwy ym mhob etholiad neu refferendwm (ticiwch un blwch yn unig):

- ☐ hyd nes i mi ddweud fel arall (pleidlais barhaol drwy ddirprwy)
- ☐ neu'r cyfnod

o								
	D	D	M	M	B	B	B	B
i								
	D	D	M	M	B	B	B	B

4 Pam eich bod chi am bleidlais drwy ddirprwy?

Darllenwch y nodiadau ar y dudalen flaenorol a chwblhewch un ai A, B neu C.

A - Nid wyf yn gallu mynd i'r orsaf bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad o ganlyniad i'r anabledd canlynol:

B - Nid wyf yn gallu mynd i'r orsaf bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad o ganlyniad i fy nallineb. Rwyf wedi fy nghofrestru'n ddall gan (yr awdurdod lleol canlynol):

C - Nid wyf yn gallu mynd i'r orsaf bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad o ganlyniad i'r anabledd yr wyf yn derbyn budd-dal amdano. Nodwch pa fudd-daliadau a restrwyd ar y dudalen flaenorol yr ydych yn eu derbyn, a'ch anabledd:

Cais i bleidleisio drwy ddirprwy oherwydd anabledd



Dim ond un person all wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy gan ddefnyddio'r ffurflen hon. Ysgrifennwch mewn inc du a defnyddiwch **BRIFLYTHRENNAU**. Wedi i chi lenwi pob adran a llofnodi'r ffurflen eich hun, anfonwch ef at eich swyddfa cofrestru etholiadol. Mae'r cyfeiriad ar gael yn **www.fymhleidlaisi.co.uk**

5 Eich dyddiad geni a'ch datganiad

Datganiad: Yr wyf wedi gofyn i'r person yr wyf wedi'u henwi fel fy nîrprwy ac yn cadarnhau ei fod ef/ei bod hi yn fodlon ac yn gallu cael eu penodi i bleidleisio ar fy rhan.

Mae'r manylion ar y ffurflen hon yn wir ac yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth i. Rwy'n deall fod darparu gwybodaeth ffug ar y ffurflen hon yn drosedd, yn gosbadwy ar gollfarn gan garchar o hyd at 2 flynedd a/neu ddirwy.

Dyddiad geni: Ysgrifennwch eich dyddiad geni 'DD MM BBBB' yn y blychau du isod gan ddefnyddio inc du.

--	--	--	--	--	--	--	--

Llofnod: Llofnodwch isod gan gadw o fewn y border llwyd.

--

Os nad ydych yn gallu llofnodi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch Swyddog Cofrestru Etholiadol.

6 Dyddiad y cais

Dyddiad heddiw

D	D	M	M	B	B	B	B

7 Cefnogi'r cais hwn

Darllenwch y nodiadau i weld pwy all gefnogi'r cais. Cwblhewch un ai A, B, C neu D ar y tudalennau canlynol, fel bo'n briodol:

Cwblhewch **A** os ydych yn gofalu a/neu yn trin yr anabledd yn y cais, a'ch bod yn:

- ☐ feddyg cofrestredig, gan gynnwys deintydd, optegydd, fferyllydd, osteopath, ceiropractydd a seicolegydd
- ☐ nyrs cofrestredig
- ☐ gweithiwr iechyd proffesiynol

Cwblhewch **B** os ydych yn gofalu, trin a/neu wedi trefnu gofal neu gymorth o ran yr anabledd a nodir yn y cais, a'ch bod yn:

- ☐ weithiwr cymdeithasol cofrestredig

Cwblhewch **C** os ydych yn:

- ☐ berson sydd wedi'u cofrestru sy'n rhedeg cartref gofal preswyl
- ☐ warden eiddo a ddarperir ar gyfer pensiynwyr neu bobl anabl

Cwblhewch **D** os ydych yn:

- ☐ rheolwr iechyd meddwl cofrestredig neu eu cynrychiolydd

Nid oes angen i'r cais gael ei gefnogi os gwnaethoch gwblhau Rhan 4B neu 4C ac yn gwneud cais o ganlyniad i ddallineb a'ch bod wedi'ch cofrestru fel person dall, neu os ydych yn derbyn elfen cyfradd uwch un ai'r lwfans byw i'r anabl neu'r taliad annibyniaeth bersonol/y Lluedd Arfog o ganlyniad i'r anabledd.

Cais i bleidleisio drwy ddirprwy oherwydd anabledd



Dim ond un person all wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy gan ddefnyddio'r ffurflen hon. Ysgrifennwch mewn inc du a defnyddiwch **BRIFLYTHRENNAU**. Wedi i chi lenwi pob adran a llofnodi'r ffurflen eich hun, anfonwch ef at eich swyddfa cofrestru etholiadol. Mae'r cyfeiriad ar gael yn **www.fymhleidlaisi.co.uk**

A Os ydych yn gofalu a/neu yn trin yr anabledd a nodir yn y cais, a'ch bod yn:

☐ feddyg cofrestredig, gan gynnwys deintydd, optegydd, fferylllydd, osteopath, ceiropractydd a seicolegydd

☐ nyrs cofrestredig

☐ gweithiwr iechyd proffesiynol

Enw llawn y cefnogwr:

Cyfeiriad y cefnogwr:

Cod post:

Cymhwyster y cefnogwr:

Datganiad:

☐ Rwy'n gofalu a/neu'n trin yr ymgeisydd am yr anabledd a nodir yn y cais

☐ Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred:

- mae gan yr ymgeisydd yr anabledd a nodir yn y cais ac ni ellir disgwyl yn rhesymol ei bod/ei fod yn mynd i'w gorsaf bleidleisio ar ddiwrnod pleidleisio i bleidleisio, neu i bleidleisio yno heb gymorth o ganlyniad i anabledd.
- mae'r anabledd a nodir yn y cais yn debygol o barhau am gyfnod penagored neu nes:

Llofnod y cefnogwr:

Dyddiad:

| | | | | | | |
D D M M B B B B

B Os ydych yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig yn gofalu, trin a/neu wedi trefnu gofal neu gymorth o ran yr anabledd a nodir yn y cais

Enw llawn y cefnogwr:

Cyfeiriad y cefnogwr:

Cod post:

Cymhwyster y cefnogwr:

Datganiad:

☐ Rwy'n gofalu a/neu'n trin yr ymgeisydd, neu wedi trefnu gofal neu gymorth i'r ymgeisydd ar gyfer yr anabledd a nodir yn y cais

☐ Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred:

- mae gan yr ymgeisydd yr anabledd a nodir yn y cais ac ni ellir disgwyl yn rhesymol ei bod/ei fod yn mynd i'w gorsaf bleidleisio ar ddiwrnod pleidleisio i bleidleisio, neu i bleidleisio yno heb gymorth o ganlyniad i anabledd.
- mae'r anabledd a nodir yn y cais yn debygol o barhau am gyfnod penagored neu nes:

Llofnod y cefnogwr:

Dyddiad:

| | | | | | | |
D D M M B B B B

Cais i bleidleisio drwy ddirprwy oherwydd anabledd



Dim ond un person all wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy gan ddefnyddio'r ffurflen hon. Ysgrifennwch mewn inc du a defnyddiwch **BRIFLYTHRENNAU**. Wedi i chi lenwi pob adran a llofnodi'r ffurflen eich hun, anfonwch ef at eich swyddfa cofrestru etholiadol. Mae'r cyfeiriad ar gael yn **www.fymhleidlaisi.co.uk**

C Os ydych yn berson sydd wedi'u cofrestru fel rhedeg cartref gofal preswyl, neu'n warden eiddo a ddarparwyd ar gyfer pensiynwyr neu bobl anabl

D Os ydych yn rheolwr iechyd meddwl cofrestredig neu eu cynrychiolydd

Enw llawn y cefnogwr:

Enw llawn y cefnogwr:

Cyfeiriad y cefnogwr:

Swydd y cefnogwr yn yr ysbyty y mae'r ymgeisydd yn derbyn triniaeth:

Cod post:

Datganiad:

Cymhwyster y cefnogwr:

☐ Rwyf wedi fy awdurdodi i gefnogi'r cais hwn

☐ Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred:

- mae gan yr ymgeisydd yr anabledd a nodir yn y cais ac ni ellir disgwyl yn rhesymol ei bod/ei fod yn mynd i'w gorsaf bleidleisio ar ddiwrnod pleidleisio i bleidleisio, neu i bleidleisio yno heb gymorth o ganlyniad i anabledd.

- mae'r anabledd a nodir yn y cais yn debygol o barhau am gyfnod penagored neu nes:

Datganiad:

☐ Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred:

- mae gan yr ymgeisydd yr anabledd a nodir yn y cais ac ni ellir disgwyl yn rhesymol ei bod/ei fod yn mynd i'w gorsaf bleidleisio ar ddiwrnod pleidleisio i bleidleisio, neu i bleidleisio yno heb gymorth o ganlyniad i anabledd.
- mae'r anabledd a nodir yn y cais yn debygol o barhau am gyfnod penagored neu nes:

Llofnod y cefnogwr:

Llofnod y cefnogwr:

Dyddiad:

D	D	M	M	B	B	B	B

Dyddiad:

D	D	M	M	B	B	B	B